Paratoi ar gyfer sychder ac ymateb iddo

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer cyfnodau o sychder ac ymateb iddynt.

Mae sychder yn digwydd pan fydd prinder glaw yn cael effaith niweidiol ar yr amgylchedd. Mae'n debygol y bydd llai o ddŵr mewn afonydd, lefelau dŵr daear eithriadol o isel a lleithder annigonol yn y pridd. Yn aml, mae'r amodau hyn yn arwain at arwyddion o straen i fywyd gwyllt, pysgod a chynefinoedd, a phroblemau i amaeth a garddwriaeth.

Mae llawer o fusnesau tir yn defnyddio cyflenwadau dŵr preifat, a gall hyn achosi problemau ychwanegol.

Mae angen cymryd mesurau i ragweld a pharatoi ar gyfer sychder. Gallai'r rhain gynnwys lleihau defnydd, storio dŵr dros dro a sefydlu cyflenwadau ychwanegol dros dro.

Mae'r safon hon yn addas i ffermwyr, tyfwyr, pysgodfeydd a chadwraeth amgylcheddol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg y bydd sychder yn digwydd yn y sector rydych chi'n gweithio ynddo, a'r effeithiau y byddai'n eu cael
2. asesu'r angen am ddŵr a sut y gallai hwn gael ei ddarparu pan fydd sychder
3. bod â chynlluniau ar waith i baratoi ar gyfer effeithiau sychder yn eich maes gwaith a lliniaru'r effeithiau
4. gweithredu i leihau'r defnydd o ddŵr a'i ddiogelu
5. monitro'r sefyllfa yn rheolaidd a gweithredu'n gynnar i gyfyngu ar ei heffeithiau
6. gwneud cais am drwyddedau dŵr, lle bo'r angen
7. rhoi gwybod i'ch sefydliad cyfrifol a cheisio cyngor ganddo

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae sychder yn effeithio ar y sector tir rydych chi'n gweithio ynddo
2. y camau y gellir eu cymryd i baratoi ar gyfer effeithiau sychder yn eich sector a lliniaru'r effeithiau
3. y sefydliadau a all gynnig help a chyngor ar sychder yn eich sector
4. pwysigrwydd cynllunio i reoli effeithiau sychder
5. y ffyrdd y gellir lleihau'r defnydd o ddŵr ac y gellir diogelu dŵr
6. y ffyrdd y gall lefelau dŵr/cynnwys lleithder y pridd gael eu monitro
7. pryd mae angen trwyddedau dŵr a sut i wneud cais amdanynt
8. y sefydliad cyfrifol ar gyfer y sector rydych chi'n gweithio ynddo a sut i gysylltu â nhw

## Geirfa

**Gallai camau gweithredu i liniaru effeithiau sychder gynnwys:**

- Cysylltu â chwmni dŵr i ddarparu cyflenwad gwahanol ar gyfer da byw
- Sefydlu cyflenwadau dŵr ychwanegol dros dro
- Storio dŵr dros dro mewn tanciau
- Defnyddio pympiau
- Monitro lleoliad ac iechyd pysgod mewn pysgodfeydd
- Gwirio am ordyfiant algâu mewn pysgodfeydd
- Ocsigenu'r dŵr mewn pysgodfeydd
- Symud pysgod mewn pysgodfeydd
- Adleoli da byw
- Monitro ar gyfer risg tân gwyllt mewn ardaloedd bregus

**Sefydliadau cyfrifol:**

- DEFRA
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban SEPA
- Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon
- Cwmni dŵr

**Gallai ffyrdd o leihau a diogelu dŵr gynnwys:**

- Dal a storio dŵr
- Masnachu dŵr
- Lleihau anweddu
- Dewis mathau o gnydau yn ofalus
- Rheoli iechyd pridd
- Defnyddio tomwellt i gadw lleithder yn y pridd
- Defnyddio dyfrhau yn effeithlon e.e. dyfrhau trwy ddiferion neu ddyfrhau dros nos i leihau anweddu
- Cylchdroi cnydau/pori

# Paratoi ar gyfer sychder ac ymateb iddo

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2028 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS108 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Cadwraeth Amgylcheddol, Rheolwr Pysgodfa, Garddwriaeth |
| **Cyfres/Set** | Rheoli Digwyddiadau yn y Sector Tir |
| **Geiriau Allweddol** | sychder; dŵr |